# Atodiad 6: Diogeledd

## Diogeledd safle a diogelwch safle

Cyfrifoldeb y pennaeth a’r corff llywodraethol yw sicrhau bod safle’r ysgol a’i hadeilad yn ddiogel. Bydd y trefniadau hyn yn amrywio o un ysgol i’r llall yn dibynnu ar natur y safle ac oedran y disgyblion ar y gofrestr. Gallai trefniadau mewn ysgolion cynradd fod yn wahanol i’r rhai mewn ysgolion uwchradd. Yn achos UCD, yr awdurdod lleol ac nid yr athro sydd â gofal / pwyllgor rheoli sydd â’r cyfrifoldeb sylfaenol.

Rydym yn disgwyl i’r ysgol:

- gynnal asesiad risg trylwyr o safle’r ysgol, er enghraifft ystyried diogeledd y safle, hawliau tramwy cyhoeddus, trefniadau rheoli traffig a chyflwr yr holl adeiladau
- gwneud trefniadau priodol i reoli’r risgiau hynny yn briodol
- dweud wrth eu cyflogeion am y risgiau a’r camau y dylid eu cymryd i’w rheoli
- sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei roi i gyflogeion ar faterion iechyd a diogelwch

## Defnyddio cyfleusterau canolfan hamdden

Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel wrth ddefnyddio cyfleusterau canolfan hamdden. Dylai hyn gynnwys nid yn unig ddefnydd disgyblion o’r cyfleusterau, ond hefyd trefniadau teithio ar gyfer cyrraedd y rhain pan na fyddant ar safle a rennir. Dylai fod gan ddysgwyr gyfleusterau newid dynodedig na all y cyhoedd fynd iddynt pan fydd y dysgwyr yn eu defnyddio. Rydym yn disgwyl i’r ysgol gynnal asesiad risg trylwyr o ddefnydd yr ysgol o gyfleusterau o’r fath a gwneud trefniadau priodol i reoli’r risgiau hynny yn briodol.